**Statws** *This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L  C Y M R U

# 2026 Rhif 102

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Caerffili (Cymunedau) 2026

*Gwnaed - - - - 22 Mawrth 2026*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2) a (3)*

Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru(**1**) ("y Comisiwn"), o dan adran 36(5)(a) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013(**2**) ("Deddf 2013"), wedi cyflwyno i Weinidogion Cymru adroddiad dyddiedig Mai 2024 yn cynnwys ei argymhellion ar gyfer newid a manylion adolygiad o drefniadau cymunedol o fewn Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu rhoi effaith i argymhellion y Comisiwn heb addasiadau. Mae Gweinidogion Cymru hefyd yn gwneud darpariaeth atodol fel y'i hystyrir ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus.

O dan adran 37(3A) a (3B) o Ddeddf 2013(**3**), mae mwy na 6 wythnos wedi mynd heibio ers i'r argymhellion hynny gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru ac mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wnaed yn ystod y cyfnod hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi datganiad yn nodi eu penderfyniad mewn cysylltiad â phob argymhelliad yn unol ag adran 37(6) o Ddeddf 2013(**4**).

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 37(1) a 40(1) a (2)(a) o Ddeddf 2013.

O dan adran 37(2A) o Ddeddf 2013(**5**), mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn fwy na 6 mis cyn diwrnod etholiad cyngor cyffredin o dan adran 26 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**6**).

(**1**) Sefydlwyd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru gan adran 53 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70) ac Atodlen 8 iddi. Diddymwyd adran 53 ac Atodlen 8 gan adran 73(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (dccc 4) ("Deddf 2013") ac Atodlen 2 iddi. Gwnaeth Deddf 2013 ailenwi'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (gweler adran 2(2)). Gwnaeth Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 (dsc 4) ailenwi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (gweler adran 12).

(**2**) 2013 dccc 4. Gwnaeth adran 11 o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 ailenwi enw byr Deddf 2013 yn Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013.

(**3**) Rhoddwyd adran 37(3A) a (3B) yn lle adran 37(3) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 gan adran 43(2) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (dsc 5).

(**4**) Mewnosodwyd adran 37(6) gan adran 49(2)(b) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024.

(**5**) Mewnosodwyd adran 37(2A) gan adran 47(3) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024.

(**6**) Amnewidiwyd adran 26 gan adran 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19). Diwygiwyd adran 26 gan O.S. 2019/1269 (Cy. 220) i ddarparu mai'r flwyddyn y mae rhaid i etholiadau cyffredin cynghorwyr awdurdodau lleol gael eu cynnal yw 2022 yn hytrach na 2021. Diwygiwyd adran 26(1) ymhellach gan adran 14(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1) i ddarparu bod rhaid i etholiadau gael eu cynnal bob pumed flwyddyn ar ôl 2022.

## Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Caerffili (Cymunedau) 2026.

(2) At unrhyw ddiben a nodir yn rheoliad 4(1) o Reoliadau 1976(**7**), daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Mai 2026.

(3) At bob diben arall, daw'r Gorchymyn hwn i rym am 23:59 o'r gloch ar y diwrnod cyn y diwrnod arferol ar gyfer ethol cynghorwyr yn 2027.

## Dehongli

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Deddf 1972" ("*the 1972 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972(**8**);

ystyr "newydd" ("*new*") yw cymuned, ward gymunedol neu gyngor cymuned a sefydlir gan y Gorchymyn hwn;

ystyr "presennol" ("*existing*") yw cymuned, ward gymunedol neu gyngor cymuned fel y mae'n bodoli yn union cyn yr amser a'r diwrnod a nodir yn erthygl 1(3);

ystyr "Rheoliadau 1976" ("*the 1976 Regulations*") yw Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976;

ystyr "ward etholiadol" ("*electoral ward*") yw unrhyw ardal yr etholir cynghorwyr drosti i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili;

mae unrhyw gyfeiriad at fap yn golygu un o'r 19 o fapiau a farciwyd "Map ar gyfer Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Caerffili (Cymunedau) 2026" a adneuwyd yn unol â rheoliad 5 o Reoliadau 1976, a labelwyd "1" i "19", ac mae cyfeiriad at fap â rhif yn gyfeiriad at y map sy'n dwyn y rhif hwnnw;

pan ddangosir bod ffin ar fap yn rhedeg ar hyd ffordd, rheilffordd, troetffordd, cwrs dŵr neu nodwedd ddaearyddol debyg, mae i'w thrin fel un sy'n rhedeg ar hyd llinell ganol y nodwedd.

(2) Mae'r darpariaethau yn y Gorchymyn hwn yn cymryd blaenoriaeth dros unrhyw ddarpariaeth wrthdrawiadol mewn unrhyw offeryn statudol blaenorol a wnaed o dan adran 58(2) o Ddeddf 1972 neu orchymyn a wnaed o dan adrannau 37(1), 38(1) neu 39(1) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013.

## Dwyrain Rhisga a Gorllewin Rhisga — diddymu cymunedau Dwyrain Rhisga a Gorllewin Rhisga a newidiadau canlyniadol i gynghorau cymuned.

**3.** Mae cymuned bresennol Dwyrain Rhisga wedi ei diddymu.

**4.** Mae cyngor cymuned presennol Dwyrain Rhisga wedi ei ddiddymu.

**5.** Mae cymuned bresennol Gorllewin Rhisga wedi ei diddymu.

**6.** Mae cyngor cymuned presennol Gorllewin Rhisga wedi ei ddiddymu.

(**7**) O.S. 1976/246. Mae adran 74(3) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 ("Deddf 2013") yn darparu bod y Rheoliadau yn parhau i gael effaith mewn perthynas â gorchmynion a wnaed o dan Ran 3 o Ddeddf 2013, fel pe bai'r gorchmynion hynny wedi eu gwneud o dan Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70).

(**8**) 1972 p. 70.

### Creu cymuned newydd Rhisga

**7.** Mae cymuned newydd wedi ei chreu o'r enw Rhisga yn Gymraeg a Risca yn Saesneg ac sy'n cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 1.

### Creu ward gymunedol newydd Pontymister Tŷ Sign

**8.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Rhisga o'r enw Pontymister Tŷ Sign yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 2;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Dwyrain Rhisga.

### Creu ward gymunedol newydd Pontymister Uchaf

**9.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Rhisga o'r enw Pontymister Uchaf yn Gymraeg a Pontymister Upper yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 2;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Dwyrain Rhisga.

### Creu ward gymunedol newydd Trenewydd

**10.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Rhisga o'r enw Trenewydd yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 3 ar Fap 2;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Dwyrain Rhisga.

### Creu ward gymunedol newydd Pontymister Isaf

**11.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Rhisga o'r enw Pontymister Isaf yn Gymraeg a Pontymister Lower yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 4 ar Fap 2;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gorllewin Rhisga.

### Creu ward gymunedol newydd Tref Rhisga a Fernlea

**12.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Rhisga o'r enw Tref Rhisga a Fernlea yn Gymraeg a Risca Town and Fernlea yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 5 ar Fap 2;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gorllewin Rhisga.

### Creu ward gymunedol newydd Rhisga Dan-y-graig

**13.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Rhisga o'r enw Rhisga Dan-y-graig yn Gymraeg a Risca Dan-y-graig yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 6 ar Fap 2;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gorllewin Rhisga.

### Creu ward gymunedol newydd Caeau Tŷ Isaf ac Ochrwyth

**14.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Rhisga o'r enw Caeau Tŷ Isaf ac Ochrwyth yn Gymraeg a Tŷ Isaf Fields and Ochrwyth yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 7 ar Fap 2;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gorllewin Rhisga.

### Cymuned newydd Rhisga — sefydlu cyngor cymuned a threfniadau etholiadol cymunedol

**15.** Mae cyngor ar gyfer cymuned newydd Rhisga wedi ei sefydlu.

**16.** Yng nghymuned newydd Rhisga nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward Pontymister Tŷ Sign yw 4;

(b) ward Pontymister Uchaf yw 3;

(c) ward Trenewydd yw 3;

(d) ward Pontymister Isaf yw 1;

(e) ward Rhisga Dan-y-graig yw 1;

(f) ward Tref Rhisga a Fernlea yw 3;

(g) ward Caeau Tŷ Isaf ac Ochrwyth yw 3.

### Bedwas, Trethomas a Machen, a Rhydri — diddymu cymunedau Bedwas, Trethomas a Machen, a Rhydri a newidiadau canlyniadol i gynghorau cymuned.

**17.** Mae cymuned bresennol Bedwas, Trethomas a Machen wedi ei diddymu.

**18.** Mae cyngor cymuned presennol Bedwas, Trethomas a Machen wedi ei ddiddymu.

**19.** Mae cymuned bresennol Rhydri wedi ei diddymu.

**20.** Mae cyngor cymuned presennol Rhydri wedi ei ddiddymu.

### Creu cymuned newydd Bedwas, Trethomas, Machen a Rhydri

**21.** Mae cymuned newydd wedi ei chreu o'r enw Bedwas, Trethomas, Machen a Rhydri yn Gymraeg a Bedwas, Trethomas, Machen and Rudry yn Saesneg ac sy'n cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 3.

### Creu ward gymunedol newydd Bedwas

**22.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Bedwas, Trethomas, Machen a Rhydri o'r enw Bedwas yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 1 ar Fap 4;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Bedwas a Threthomas.

### Creu ward gymunedol newydd Trethomas

**23.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Bedwas, Trethomas, Machen a Rhydri o'r enw Trethomas yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a'i rhifo 2 ar Fap 4;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Bedwas a Threthomas.

### Creu ward gymunedol newydd Machen

**24.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Bedwas, Trethomas, Machen a Rhydri o’r enw Machen yn Gymraeg ac yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a’i rhifo 3 ar Fap 4;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Machen a Rhydri.

### Creu ward gymunedol newydd Rhydri

**25.** Mae ward gymunedol newydd wedi ei chreu yng nghymuned newydd Bedwas, Trethomas, Machen a Rhydri o’r enw Rhydri yn Gymraeg a Rudry yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio a’i rhifo 4 ar Fap 4;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Machen a Rhydri.

### Cymuned newydd Bedwas, Trethomas, Machen a Rhydri — sefydlu cyngor cymuned a threfniadau etholiadol cymunedol

**26.** Mae cyngor ar gyfer cymuned newydd Bedwas, Trethomas, Machen a Rhydri wedi ei sefydlu.

**27.** Yng nghymuned newydd Bedwas, Trethomas, Machen a Rhydri nifer y cynghorwyr sydd i’w hethol dros—

(a) ward Bedwas yw 5;

(b) ward Trethomas yw 3;

(c) ward Machen yw 4;

(d) ward Rhydri yw 2.

### Gelli-gaer, Llanbradach a Phwll-y-pant, a Nelson — newidiadau i ffiniau cymunedau a ffiniau wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**28.** Mae’r rhan o ward Greenhill o gymuned Gelli-gaer a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 5—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward Cascade o gymuned Gelli-gaer;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Sant Catwg.

**29.** Mae’r rhan o ward Cefn Hengoed o gymuned Gelli-gaer a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 6—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward Ystrad Mynach o gymuned Gelli-gaer;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Ystrad Mynach.

**30.** Mae’r rhan o ward Cefn Hengoed o gymuned Gelli-gaer a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 7—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward Tir-y-berth o gymuned Gelli-gaer;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Sant Catwg.

**31.** Mae’r rhan o ward Greenhill o gymuned Gelli-gaer a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 8—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward Llwyncelyn o gymuned Nelson;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Nelson.

**32.** Mae'r rhan o ward Ystrad Mynach o gymuned Gelli-gaer a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 9—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward Wingfield o gymuned Llanbradach a Phwll-y-pant;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanbradach.

### Llanbradach a Phwll-y-pant – newid enw'r ward gymunedol

**33.** Enw ward Pwll-y-pant yng nghymuned Llanbradach a Phwll-y-pant yw Pwll-y-pant yn Gymraeg ac erys yr enw Pwll-y-pant yn Saesneg.

### Gelli-gaer — trefniadau etholiadol cymunedol

**34.** Yng nghymuned Gelli-gaer nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward Cascade yw 3;

(b) ward Cefn Hengoed yw 2;

(c) ward Greenhill yw 2;

(d) ward Hengoed yw 2;

(e) ward Tir-y-berth yw 1;

(f) ward Ystrad Mynach yw 4.

### Caerffili — newidiadau i ffiniau wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol.

**35.** Mae'r rhan o ward Y Castell o gymuned Caerffili a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 10—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward Bryncenydd o gymuned Caerffili;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Morgan Jones.

**36.** Mae'r rhan o ward Parcyfelin o gymuned Caerffili a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 11—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward Tonyfelin o gymuned Caerffili;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Morgan Jones.

**37.** Mae'r rhannau o ward Tonyfelin o gymuned Caerffili a ddangosir wedi eu graddliwio ar Fap 12—

(a) wedi eu trosglwyddo i ward Parcyfelin o gymuned Caerffili;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Morgan Jones.

### Caerffili — trefniadau etholiadol cymunedol

**38.** Yng nghymuned Caerffili nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward Bryncenydd yw 1;

(b) ward Y Castell yw 2;

(c) ward Cwrt Rawlin yw 2;

(d) ward Parcyfelin yw 3;

(e) ward Tonyfelin yw 2;

(f) ward Twyn yw 2;

(g) ward Watford yw 2.

### Bargod, a Phengam — newidiadau i ffiniau cymunedau a ffiniau wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**39.** Mae'r rhan o ward Bargod o gymuned Bargod a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 13—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward Gilfach o gymuned Bargod;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Gilfach.

**40.** Mae'r rhannau o ward Gilfach o gymuned Bargod a ddangosir wedi eu graddliwio ar Fap 14—

(a) wedi eu trosglwyddo i ward Parc o gymuned Bargod;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Aberbargod a Bargod.

**41.** Mae'r rhan o ward Aberbargod o gymuned Bargod a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 15—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned newydd Cefn Fforest a Phengam;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Cefn Fforest a Phengam.

### Bargod — trefniadau etholiadol cymunedol

**42.** Yng nghymuned Bargod nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward Aberbargod yw 5;

(b) ward Bargod yw 6;

(c) ward Gilfach yw 3;

(d) ward Parc yw 2.

### Cefn Fforest a Pengam — diddymu cymunedau Cefn Fforest a Pengam

**43.** Mae cymuned bresennol Cefn Fforest wedi ei diddymu.

**44.** Mae cymuned bresennol Pengam wedi ei diddymu.

### Creu cymuned newydd Cefn Fforest a Phengam

**45.** Mae cymuned newydd wedi ei chreu o'r enw Cefn Fforest a Phengam yn Gymraeg a Cefn Fforest and Pengam yn Saesneg ac sydd—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 16;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Cefn Fforest a Phengam.

### Cymuned newydd Cefn Fforest a Phengam —sefydlu cyngor cymuned a threfniadau etholiadol cymunedol

**46.** Mae cyngor ar gyfer cymuned newydd Cefn Fforest a Phengam wedi ei sefydlu.

**47.** Yng nghymuned newydd Cefn Fforest a Phengam nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 3.

### Maesycwmwr, Pontllan-fraith, a Llanbradach a Phwll-y-pant — newidiadau i ffiniau cymunedau a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**48.** Mae'r rhan o gymuned Maesycwmwr a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 17—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Pontllan-fraith;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Pontllan-fraith.

**49.** Mae'r rhan o gymuned Maesycwmwr a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 18—

(a) wedi ei throsglwyddo i ward Wingfield o gymuned Llanbradach a Phwll-y-pant;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Llanbradach.

### Maesycwmwr — trefniadau etholiadol ward gymunedol

**50.** Yng nghymuned Maesycwmwr nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol yw 8.

### Rhymni — cyfuno wardiau cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol

**51.** Yng nghymuned Rhymni, mae ardal wardiau cymunedol Dewi Sant, a Moriah wedi eu cyfuno ac—

(a) yn cynnwys ward gymunedol newydd o'r enw Dewi Sant a Moriah yn Gymraeg a St David's and Moriah yn Saesneg ac a ddangosir wedi ei graddliwio ar Fap 19;

(b) yn ffurfio rhan o ward etholiadol Moriah a Phontlotyn.

### Rhymni — trefniadau etholiadol cymunedol

**52.** Yng nghymuned Rhymni nifer y cynghorwyr sydd i'w hethol dros—

(a) ward Abertyswg yw 3;

(b) ward Dewi Sant a Moriah yw 3;

(c) ward Pontlotyn yw 3;

(d) ward Twyncarno yw 5.

### Treuliau cychwynnol etc. cynghorau cymuned Newydd

**53.**—(1) Yn yr erthygl hon—

ystyr "yr awdurdod bilio arfaethedig" ("the prospective billing authority") yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili;

ystyr "Deddf 1992" ("the 1992 Act") yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992(**9**);

ystyr "y flwyddyn ariannol berthnasol" ("the relevant financial year") yw'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau 1 Ebrill 2027.

(2) Ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol, mae adran 32 o Ddeddf 1992 (cyfrifo gofynion cyllideb gan awdurdodau bilio) yn gymwys i'r cynghorau cymuned newydd a'r awdurdod bilio arfaethedig ond fel pe bai—

(a) wrth wneud cyfrifiad o dan adran 32(2)(a) o Ddeddf 1992—

(**9**) 1992 p. 14. Diwygiwyd adrannau 32 a 35, o ran Cymru, gan baragraffau 4 a 6 yn y drefn honno o Atodlen 12 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19). Diwygiwyd adran 50 gan Ran 1 o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p. 26). Mewnosodwyd adrannau 52X a 52Y gan Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 (p. 27).

(i) y swm a hysbysir o dan baragraff (6) o’r erthygl hon yn eitem a grybwyllir yn adran 35(1) o Ddeddf 1992 (eitemau arbennig) sy’n ymwneud â’r gymuned newydd, a

(ii) ardal yr awdurdod bilio arfaethedig yn cynnwys y gymuned newydd;

(b) is-adran (6) wedi ei hepgor.

(3) Ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol, mae adran 41 o Ddeddf 1992 (dyroddi praeseptau gan awdurdodau praeseptio lleol) yn gymwys i’r cynghorau cymuned newydd a’r awdurdod bilio arfaethedig ond fel pe bai’n ofynnol i’r awdurdod bilio arfaethedig, wrth wneud cyfrifiadau o dan adran 32 o Ddeddf 1992 (yn wreiddiol neu drwy amnewid) yn ei amcangyfrif o dan adran 32(2)(a), ystyried swm sy’n hafal i’r hyn a hysbysir iddo o dan baragraff (6) o’r erthygl hon.

(4) Ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol, mae adrannau 52X(1) (cyfrifiadau i fod yn net o braeseptau) a 52Y(2) (gwybodaeth at ddibenion Pennod 4A) o Ddeddf 1992 yn gymwys i’r cynghorau cymuned newydd a’r awdurdod bilio arfaethedig ond fel pe bai cyfanswm cyfanredol y praeseptau a ragwelir gan yr awdurdod bilio arfaethedig o dan reoliadau a wnaed o dan adran 41 o Ddeddf 1992 yn cynnwys y symiau a hysbysir i’r cynghorau cymuned newydd o dan baragraff (6) o’r erthygl hon.

(5) Mewn perthynas â’r flwyddyn ariannol berthnasol, mae adran 50 o Ddeddf 1992 (cyfrifo gofyniad cyllideb gan awdurdodau praeseptio lleol) yn gymwys i’r cynghorau cymuned newydd a’r awdurdod bilio arfaethedig fel pe bai’n ofynnol i bob un o’r cynghorau cymuned newydd sicrhau nad yw’r swm a gyfrifwyd fel ei ofyniad cyllideb ar gyfer y flwyddyn honno yn fwy na’r swm a hysbysir i’r cyngor cymuned newydd hwnnw o dan baragraff (6) o’r erthygl hon.

(6) Rhaid i Weinidogion Cymru roi gwybod am y swm priodol sydd i’w hysbysu i bob un o’r cynghorau cymuned newydd o dan y paragraff hwn yn ysgrifenedig i’r awdurdod bilio arfaethedig ac i bob un o’r cynghorau cymuned newydd.

(7) Ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol, mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Praeseptau) (Cymru) 1995(**10**) yn gymwys i’r cynghorau cymuned newydd a’r awdurdod bilio arfaethedig fel pe bai—

(a) rheoliad 5 (gwybodaeth am amserlenni talu) wedi ei hepgor;

(b) ym mharagraff 8 o’r Atodlen (rheolau i benderfynu’r cyfnodau amser ar gyfer rhandaliadau)—

(i) yn is-baragraffau (1), (2) a (3), y geiriau ar ôl y cyfeiriad cyntaf at “that financial year” wedi eu hepgor;

(ii) yn is-baragraff (1)(a), y cyfeiriad at “April” yn gyfeiriad at “May”.

### Cynghorau cymuned Newydd

**54.** Rhaid i swyddog priodol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gynnull cyfarfod cyntaf pob un o’r cynghorau cymuned newydd a sefydlir gan erthyglau 15, 26 a 46.

### Cynghorau cymuned newydd — olynwyr gweddilliol

**55.** At ddibenion unrhyw ddarpariaeth o Reoliadau 1976 sy’n cyfeirio at olynydd gweddilliol awdurdod a ddiddymwyd—

(**10**) O.S. 1995/2562 y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i’r Gorchymyn hwn.

(a) ar gyfer cynghorau cymuned presennol Dwyrain Rhisga a Gorllewin Rhisga, mae cyngor cymuned newydd cymuned newydd Rhisga wedi ei bennu yn olynydd gweddilliol;

(b) ar gyfer cynghorau cymuned presennol Bedwas, Trethomas a Machen, a Rhydri, mae cyngor cymuned newydd cymuned newydd Bedwas, Trethomas, Machen a Rhydri wedi ei bennu yn olynydd gweddilliol;

(c) ar gyfer cynghorau cymuned presennol Cefn Fforest, a Pengam, mae cyngor cymuned newydd cymuned newydd Cefn Fforest a Phengam wedi ei bennu yn olynydd gweddilliol.

*Eluned Morgan*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru

22 Mawrth 2026

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn gweithredu argymhellion Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ("y Comisiwn"), a roddodd adroddiad ym mis Mai 2024 ar ei adolygiad o'r trefniadau etholiadol cymunedol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Argymhellodd adroddiad y Comisiwn newidiadau i ffiniau presennol cymunedau yn ardal Bwrdeistref Sirol Caerffili a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol, ac mae'r Gorchymyn hwn yn gweithredu argymhellion y Comisiwn heb addasiadau. Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn gwneud darpariaeth atodol, fel y'i hystyrir yn angenrheidiol neu'n hwylus gan Weinidogion Cymru, mewn perthynas â rhai enwau cymunedau.

Effaith y Gorchymyn hwn yw gwneud newidiadau i nifer o ardaloedd cymunedol a newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol. Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu nifer o gymunedau ac yn diddymu eu cynghorau cymuned, yn creu cymunedau newydd a chynghorau cymuned newydd, ac yn gwneud darpariaeth weinyddol ar gyfer gweithredu'r cynghorau cymuned newydd hynny a gosod praeseptau sy'n ymwneud â hwy.

Mae Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976, y cyfeirir atynt yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn, yn cynnwys darpariaethau deilliadol, darpariaethau canlyniadol, darpariaethau trosiannol a darpariaethau atodol ynghylch effaith gorchmynion megis y gorchymyn hwn a gweithredu'r gorchmynion hynny.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

Mae printiau o'r mapiau a labelwyd "1" i "19" y mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â hwy wedi eu hadneuo yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (yr Is-adran Etholiadau), a chyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'r printiau sydd wedi eu hadneuo gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn agored i gael eu harchwilio gan unrhyw un y bydd darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn effeithio arnynt.